Finally, an important aspect for consideration is the Wellbeing of Future Generations Act, which plays an important role in promoting more sustainable practice, and drawing attention to the wider issues of cultural vibrancy, cohesive communities, the Welsh language and culture, health, resilience and prosperity. While the act does not apply to all businesses, particularly not in the private sector, there is some suggestions from my existing research on resilience that businesses are aware of the focus on wellbeing and how it inspires more values-driven businesses, as I have spoken to businesses who have decided to close the business as their existing business model was not sustainable, or something that aligned with their values.

### *Evaluating Performance against the Objectives in the Vision for the Food and Drink Industry*

The aims for the sector are appropriate and align well with the nature of the food and drink industry in Wales. There is a need to create and support a strong and vibrant sector with a global reputation for excellence, and promote environmentally and socially responsible supply chains, as climate change and social responsibility are important issues of our time. The last 15-20 years has seen the sector grow in Wales with an increasing reputation and good export market. This has been seen in the significant increase in foods from Wales that have a protected food status (either from the European PGI, PDO and TSG awards, or the more recent UK geographical indications status). This is a vital part of the reputation for quality food from Wales and support for different organisations and food producers in receiving these statuses has been very welcomed by those who have achieved this. Value added actions like this are so important for the Welsh food and drink industry because it has developed a reputation for quality in recent years, which needs to be maintained to attract increased interest in Welsh businesses. I have also spoken to a number of food businesses who lauded the role of the Welsh government in supporting export activity, particularly the support for attending international trade shows on the Welsh food stand, which allows businesses to have a presence with international buyers, and allows Welsh businesses to develop connections with international buyers, agents and distributors. This was something that was very prominent before Brexit, but the exporting activities of many Welsh food businesses had now been constrained because of this. Therefore, it is more important than ever that support for Welsh businesses to engage in export is available, not only access to trade shows, but advice on managing paperwork in specific countries and knowledge about specific markets around the world.

In terms of environmental and social responsibility in supply chains, this is an important aim but this is a challenge that has been discussed above, particularly in view of the limited infrastructure across the food and drink supply chain, which impacts on food miles and how the sector could be sustainable. The aim for more localised supply chains is important in ensuring a sustainable sector in Wales but more localised initiatives need to be developed and scaled up across Wales through better collaboration between various stakeholders, which should be encouraged by local government and local actors.

An important aspect in relation to the work of the Welsh government in the sector is a lack of food strategy for Wales, which is something that has been missing for many years, and this would give the industry a clearer direction and can bring various stakeholders on board to address many of the challenges in the sector and ensure that there is a strategy for growing the sector, supporting the development of skills and resources required to achieve this growth, promote internationalisation, and also to ensure that the food and drink sector works alongside other relevant sectors in Wales, such as Tourism and Hospitality, as there is a need to ensure that Welsh food products can play an important part in the tourism and hospitality offering of Wales. While the lack of a Welsh food and drink strategy is an issue, a bigger issue would be a lack of economic development strategy in Wales, as there is a need to set out how the food and drink sector fits into the Welsh economy more strategically. This could support cooperation across sectors and ensure that there is a common goal.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

26 Mehefin 2025

Annwyl Llywydd,

Ysgrifennaf atoch yn eich rhinwedd eich swydd fel Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd ynghylch y Bil Hawliau Cyflogaeth.

Nod y Bil Hawliau Cyflogaeth yw cyflawni'r diwygiadau deddfwriaethol allweddol a nodir yng nghynllun 'Plan to Make Work Pay' Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod tri memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil erbyn hyn.

Fel y nodir yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, mae Cymal 26 o'r Bil adeg ei gyflwyno (Cymal 31 bellach, yn y fersiwn o'r Bil a ddygwyd i Dŷ'r Arglwyddi o Dŷ'r Cyffredin) yn mewnosod adran newydd 78A yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cymal hwn yn galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrrff cyhoeddus penodol baratoi a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" sy'n ymdrin â materion cydraddoldeb rhywedd.

Yn wahanol i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill yng Nghymru, mae Comisiwn y Senedd o fewn cwrpas y cymal hwn. A hynny oherwydd bod Comisiwn y Senedd wedi'i restru o dan Ran 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn gyson â rhestru Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban o dan Ran 1.

Dylid nodi na all Gweinidogion Cymru osod dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ar Gomisiwn y Senedd drwy adran 153(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. A hynny oherwydd nad yw Comisiwn y Senedd wedi'i restru yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf honno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales](mailto:Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 32**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ganlyniad, ac fel y nodir yn fy llythyr dyddiedig 30 Ebrill at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y cawsoch gopi ohono, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Gomisiwn y Senedd fod o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon yn y Bil. Gall Llywodraeth y DU eisoes wneud rheoliadau ar faterion cydraddoldeb sy'n berthnasol i Gomisiwn y Senedd o dan adran 153(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn eich llythyr dyddiedig 13 Chwefror at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, nodwyd nad oedd Comisiwn y Senedd wedi derbyn unrhyw gyswllt gan Lywodraeth y DU ynghylch y ddarpariaeth hon yn y Bil. Fe wnaethoch fynegi eich bod ffafrio diwygio'r Bil i ddynodi Comisiwn y Senedd fel ymgynghorai statudol.

Er fy mod yn gwerthfawrogi eich barn, byddai dynodi Comisiwn y Senedd yn y modd hwn ar wyneb y Bil yn anghyson â'r dull a gymerwyd mewn perthynas â chyrrff eraill a restrir o dan Ran 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, rydym mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch y Bil ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â Chomisiwn y Senedd mewn unrhyw waith yn y dyfodol sy'n ymwneud â chynlluniau gweithredu cydraddoldeb.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "JACK SARGEANT". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line underneath the name.

**Jack Sargeant AS/MS**

Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol  
Minister for Culture, Skills and Social Partnership



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Andrew RT Davies AS  
Cadair - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

27 Mehefin 2025

Annwyl Andrew,

## Adolygiad o'r Cymorth i Fusnesau

Mae'n dda clywed am gynlluniau Pwyllgor ETRA a gallaf gadarnhau fy mod wedi gofyn i'm swyddogion gynnal adolygiad o'r Cymorth i Fusnesau, i gynnwys:

- dadansoddiad o'r hyn y mae Cymru yn ei gael ar gyfer ein gweithgareddau Cymorth Busnes, ac a yw'n cyfateb i feysydd yr economi lle ceir y cyfleoedd gorau a'r anghenion mwyaf;
- argymhellion o ran cyfran yr adnoddau rydyn ni'n eu rhoi i wahanol sectorau;
- effaith ymyrraeth Llywodraeth y DU ym maes Cymorth Busnes yng Nghymru, a sut y dylem ategu cynigion ein gilydd;
- cyfeirio a chydlynu'r Cymorth Busnes sy'n cael ei gynnig yng Nghymru, gan gynnwys holl ganghennau Llywodraeth Cymru a'i chyrrff hyd braich a'i phartneriaid cyflenwi; a
- cyfleoedd i wneud arbedion y gellir eu rhoi yn ôl i gefnogi economi Cymru.

Mae pawb am weld busnesau cynaliadwy yn creu mwy o dwf a mwy o fuddsoddiad, ond nid yw hynny ar ei ben eu hun yn dystiolaeth bod angen llwyr ailadeiladu'r modd y mae Cymorth Busnes yn cael ei ddarparu. Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi bod tystiolaeth gref y gallem fod yn hyderus y gallai symud i fodel gwahanol arwain at wasanaeth gwell am yr un gost, a rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng unrhyw enillion a allai ddod o alinio'n well y gwasanaethau sydd eu hangen ar y naill law a'r costau, oedi ac amharu posibl, heb sôn am faterion rheoleiddio ar y llall.

Byddaf felly yn chwilio am gyfleoedd i wneud newidiadau ymarferol y gellir eu gwneud yn gyflym. Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan dîm gweithrediadau grŵp yr Economi, a byddant yn chwilio am arbenigwyr annibynnol i'w helpu, fwy na thebyg gyfarwyddwr anweithredol yn Llywodraeth Cymru. Rwy'n gobeithio cael cyngor gan Weinidogion erbyn mis Medi, er mwyn gallu rhoi opsiynau rwy'n cytuno arnynt ar waith o fewn tymor presennol y Senedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid gwasanaethau Llywodraeth Cymru a DBW yn unig fydd yn cael eu hadolygu. Adolygir hefyd y pethau y gwnaethom ymrwymo iddynt yn ein hymateb i argymhelliad eich Pwyllgor, sef ystyried lle mae angen cryfhau ymhellach y rhyngwyneb rhwng gwasanaethau a chyfleoedd i integreiddio gwasanaethau.

Yn y cyfamser, rydw i wedi cael cyfarfod defnyddiol iawn gyda Ffederasiwn y Busnesau Bach., a fydd yn cyhoeddi ei adroddiad ei hun cyn hir. Byddaf wrth reswm yn ystyried tystiolaeth arall. Bydd gen i ddiddordeb hefyd yng nghanlyniad gwaith eich Pwyllgor ar y Cytundebau Twf Dinesig a Rhanbarthol ac edrychaf ymlaen at weld hwnnw maes o law.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio  
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Our ref: DC-RE-00412-25

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

[SeneddLJC@senedd.wales](mailto:SeneddLJC@senedd.wales)

01 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 30 Ebrill, rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ([Datganiad Ysgrifenedig: Y Grŵp Rhyngweinigol Busnes a Diwydiant \(1 Gorffennaf 2025\) | LLYW.CYMRU](#)) yn crynhoi trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinigol ar gyfer Busnes a Diwydiant, a gynhaliwyd ar 6 Mai 2025. Bydd gohebiaeth ynglŷn â'r cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan [Llywodraeth y DU](#).

Mae'r IMG Busnes a Diwydiannau nesaf i gael ei gynnal ym mis Medi a byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn cadarnhau'r dyddiad unwaith y bydd wedi ei gytuno.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**  
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS  
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet  
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for  
Climate Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – PO/HIDCC/0270/25

Andrew RT Davies AS  
Y Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
[SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

1 Gorffennaf 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 3 Mehefin. Gallaf gadarnhau eich bod yn gywir yn eich sylwadau, yng nghyd-destun trafodaethau parhaus ar gytundeb SPS rhwng y DU a'r UE, y bydd angen ystyried gweithredu'r Model Gweithredu Targed Ffiniau (BTOM) yn y dyfodol, a bydd angen i ni hefyd leihau unrhyw wahaniaethu pellach o'r UE.

Mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill: efallai bod y Pwyllgor wedi nodi, er enghraifft, bod Defra a'r llywodraethau datganoledig wedi cyhoeddi na fydd gwiriadau ar fewnforion ffrwythau a llysiau yn cael eu cyflwyno, wrth ddisgwyl am gytundeb gyda'r UE.

Er bod unrhyw gytundeb SPS y DU/UE yn y dyfodol yn debygol o droi rheolau BTOM yn ôl mewn perthynas â fewnforion o'r UE, mae angen o hyd i adolygu mesurau bioddiogelwch a diogelwch bwyd ar gyfer ardaloedd a allai barhau o fewn cytundeb o'r fath. Bydd y gwaith hwn a'r trafodaethau parhaus gyda'r UE yn penderfynu ar yr angen am reolaethau masnach pellach yn ystod gweddill y chweched Senedd. Unwaith y bydd amserlen ar waith, byddaf yn hapus i roi diweddariad i chi.

Rwy'n rhagweld y bydd angen newidiadau deddfwriaethol sylweddol, ond ni fydd y manylion llawn yn glir nes y ceir cytundeb. Serch hynny, mae'n bwysig bod swyddogion yn Llywodraeth Cymru a'r DU yn dechrau ystyried sut i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol. Bydd cydlynw da yn hanfodol, a bydd goblygiadau o ran adnoddau, gan gofio'r llwyth gwaith sylweddol o ganlyniad i newidiadau tebyg ar gyfer Brexit o ran rheoliadau SPS.

Rwyf wedi darparu ymateb isod i weddill y cwestiynau.

***I ba raddau, os o gwbl, mae'r cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin yn gofyn am newid ymagwedd at weithredu'r BTOM, gan gynnwys newidiadau i'r amserlen a grybwyllir uchod:***

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n bwysig nodi bod y gofynion presennol yn parhau i fod yn berthnasol nes bod unrhyw gytundeb yn cael ei gwblhau a'i weithredu.

Mae'n debygol y bydd y BTOM yn dirwyn y broses yn ôl mewn perthynas â mewnfurion SPS o'r UE, fodd bynnag, nid yw'r cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin ei hun yn newid y BTOM yn uniongyrchol ond yn hytrach yn awgrymu dull pragmatig o'i weithredu, i leihau gwariant dibwys, atebolrwydd a gwahaniaethu pellach o reolau'r UE y byddai angen eu hail-alinio yn dilyn unrhyw gytundeb gyda'r UE.

Wrth i amserlenni ar gyfer trafodaethau a gweithredu dilynol ddod yn gliriach, byddwn yn gallu pennu trefniadau bioddiogelwch a diogelwch bwyd priodol yn y cyfamser. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau lefel dderbyniol o warchod bioddiogelwch.

***Sut mae'r llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd ar y newid mewn dull gweithredu, os o gwbl, sy'n ofynnol gan y cytundeb Cyd-ddealltwriaeth:***

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bwriad i weithio ar y cyd â'r llywodraethau datganoledig i baratoi ar gyfer trafodaethau gyda'r UE. Mae gweinidogion a swyddogion yn ymgysylltu trwy ddulliau rhynglywodraethol sefydledig, gan gynnwys y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau â'r UE, Grŵp Rhyngweinidogol EFRA a'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Masnach ac rydym wedi ategu hyn gyda thrafodaethau pedair-ochrog penodol ar y goblygiadau i'r BTOM. Mae'r cydweithrediad hwn yn hanfodol i sicrhau bod trafodaethau yn adlewyrchu buddiannau Cymru a chymwyseddau datganoledig, yn enwedig ym meysydd iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid.

Ar lefel swyddogol mae Grŵp Ymadael â'r UE ffurfiol sy'n cyfarfod i drafod cytundeb SPS. Mae swyddogion hefyd yn cwrdd â swyddogion Defra yn wythnosol yn fwy anffurfiol i drafod cynnydd ac ymgysylltu rhwng llywodraethau'r DU.

***Pa oblygiadau sydd yna, os o gwbl, i barodrwydd Safleoedd Rheolaethau'r Ffin sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd:***

Fe wyddoch fod Safle Rheolaethau'r Ffin Caergybi (BCP) bron â'i gwblhau, felly nid yw'r Ddealltwriaeth Gyffredin yn newid ei raglen adeiladu, ond rwy'n cadw'r goblygiadau i'n paratoadau o dan adolygiad. Bum yn trafod hyn yn fy natganiad diweddar i'r Senedd a byddaf yn hapus i drafod hyn ymhellach pan fyddaf yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf. Fodd bynnag, hyd nes y bydd gennym fanylion terfynol unrhyw gytundeb SPS, bydd yn amhosibl bod yn bendant ynglŷn â'n hangen am BCPs yn y dyfodol, felly bydd angen i ni gadw llygad ar hyn.

### ***Barn Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau SPS yn y Ddealltwriaeth Gyffredin:***

Yr UE yw ein marchnad allforio bwyd-amaeth bwysicaf yn ôl gwerth gwerthiant felly rwy'n croesawu mesurau sy'n lleihau rhwystrau ar gyfer symudiadau bwyd amaeth ac yn diogelu masnach. Bydd hefyd yn dileu'r cymhlethdodau ar gyfer mewnfurion i Gymru a achosir gan y gwahaniaeth rhwng nwyddau Iwerddon neu'r UE a Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon a thriniaeth wahanol pan nad oes ffordd dryloyw o adnabod yr olaf.

Mae gan Gymru ddiddordeb cryf mewn cynnal safonau glanweithdra a ffytoiechydol uchel (SPS), ar gyfer iechyd y cyhoedd a pharhad masnach. Byddaf yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar sut y bydd darpariaethau SPS yn y Ddealltwriaeth Gyffredin yn cael eu trafod, yn enwedig mewn meysydd sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig.

Rydym yn cefnogi dileu rhwystrau i fasnach ond rhaid i ni barhau i warchod rhag clefydau a sicrhau bod gennym fesurau ar waith sy'n darparu lefel dderbyniol o warchod bioddiogelwch. Mae holl Brif Swyddogion Milfeddygol a Phrif Swyddogion Iechyd Planhigion Prydain Fawr yn cytuno bod y risg o blâu a chlefydau yn Ewrop wedi cynyddu ers i ni adael yr UE. Mae nifer cynyddol o achosion o glefydau anifeiliaid hysbysadwy yn Ewrop, gan gynnwys Clwy'r Traed a'r genau, clwy'r moch Affricanaidd (ASF), peste des petits ruminants (PPR) a lledaeniad plâu planhigion fel Xylella. Mae cynddaredd cŵn yn parhau i fod yn endemig mewn nifer o wledydd yr UE.

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r Ddealltwriaeth Gyffredin yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n diogelu bioddiogelwch a iechyd y cyhoedd, yn cynnal cymhwysedd datganoledig, yn diogelu buddiannau economaidd Cymru, ac yn cefnogi fframwaith ffiniau effeithlon a gweithredadwy.

### ***Barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brydain Fawr alinio'n ddeinamig â safonau SPS yr UE***

Rydym yn cefnogi Llywodraeth y DU i geisio cytundeb SPS gyda'r UE, ar ran y Deyrnas Unedig gyfan.

Fodd bynnag, o ystyried natur ddatganoledig materion glanweithiol a ffytoiechydol, bydd cydweithredu rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn hanfodol ac mae ein cefnogaeth yn dibynnu ar ymgysylltu ystyrion wrth gynllunio, trafod a gweithredu cytundeb.

Rydym bob amser wedi rhagweld y byddai angen i unrhyw gytundeb fod yn seiliedig ar ryw fath o aliniad deinamig. Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi'r model hwnnw, yn amodol ar ddarpariaethau eraill y mae angen eu sicrhau mewn trafodaethau yn y dyfodol, er enghraifft ynghylch eithriadau penodol i'r cytundeb a mynediad i systemau a chronfeydd data yr UE.

Rydw i a'm cydweithwyr wedi cefnogi'n aliniad agosach â safonau SPS yr UE yn gyson, gan ei ystyried fel cam ymarferol i gynnal masnach ddi-dor mewn sectorau hanfodol a lleihau gwahaniaethau rheoleiddiol.

***Dadansoddiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o'r Ddealltwriaeth Gyffredin mewn perthynas â symudiadau rhwng Cymru ac ynys Iwerddon, gan gynnwys symudiadau Gogledd Iwerddon-Cymru ac i'r gwrthwyneb***

Hyd nes y bydd gennym gytundeb terfynol, ni allwn gadarnhau'r gofynion ar gyfer symudiadau rhwng Cymru ac ynys Iwerddon. Serch hynny, rydym yn rhagweld bod angen llawer llai o wiriadau. Ar yr amod y cynhelir bioggiogelwch, bydd unrhyw symleiddio ar y gwiriadau ar fewnforion o ynys Iwerddon, ynghyd â gwell eglurder ar symudiadau nwyddau Gogledd Iwerddon drwy Iwerddon ac i mewn i Brydain Fawr, o fudd i Gymru, ac yn enwedig Porthladd Caergybi.

Rwyf yn edrych ymlaen at ddarparu tystiolaeth pellach ar 17 Gorffennaf.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd  
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Rebecca Evans AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

2 Gorffennaf 2025

Annwyl Rebecca,

**Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu ar ôl i ni gael llythyr gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i fynd i'r afael â'r argyfwng COVID Hir yng Nghymru. Mae'r ddeiseb yn annog gweithredu o ran Covid hir ac yn benodol, mewn perthynas â'n cylch gwaith ni, mae'n galw am gefnogaeth i'r rhai sydd â Chovid hir. Yn benodol, mae'n galw am:

- "Addasiadau yn y gweithle fel oriau hyblyg, gweithio o bell, ac amddiffyniadau rhag gwahaniaethu"; a
- Cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol, i ymchwilio i sut y gallai cymorth ariannol rymuso pobl i gyfrannu at y gymdeithas, waeth beth fo'u statws iechyd".

A allwch nodi beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl sydd â Chovid Hir i gyfrannu at yr economi yng Nghymru a chael mynediad at waith?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Carolyn Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Carolyn Thomas AS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau



Carolyn Thomas AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

2 Gorffennaf 2025

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr ynghylch y ddeiseb P-06-1488: Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i fynd i'r afael â'r argyfwng COVID Hir yng Nghymru. Mae gan y Pwyllgor raglen waith lawn ar hyn o bryd, felly yn anffodus ni fyddwn yn gallu cynnal ymchwiliad i Covid hir a'r effaith gysylltiedig ar weithwyr a'r economi.

Rwy'n cytuno, fodd bynnag, bod hwn yn fater y dylid edrych arno. Rwyf wedi ysgrifennu at Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, gan godi'r materion sy'n berthnasol i'n Pwyllgor ni yn y ddeiseb. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwnnw atoch chi.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Ken Skates AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

3 Gorffennaf 2025

Annwyl Ken,

### **Difrod a chau Porthladd Caergybi oherwydd storm: Adroddiad canfyddiadau cychwynnol**

Rwy'n ysgrifennu i holi am bwynt na chafodd sylw yn ystod dadl y Pwyllgor ddydd Mercher ar ddifrod a chau Porthladd Caergybi oherwydd storm: Adroddiad canfyddiadau cychwynnol. Yn ystod y ddadl, codais y mater o bythefnos o oedi cyn ailagor y Porthladd yn llawn a gofynnais pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda Stena Line Ports ynghylch yr oedi ac a ydych yn hyderus y byddant yn bodloni'r terfyn amser diwygiedig? Ni chyfeiriwyd at y cwestiynau hyn yn eich cyfraniad.

Fel y trafodwyd gennym yn y ddadl, mae'r Porthladd yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru. Felly, buaswn yn gwerthfawrogi pe gallech egluro eich safbwynt ac ateb y cwestiynau uchod.

Oherwydd natur amser y cwestiynau, buswn yn gwerthfawrogi eich ymateb i'r llythyr hwn erbyn dydd Gwener 11 Gorffennaf, cyn ailagor y Porthladd yn llawn.

Fe wneuthum gais hefyd i chi ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch cwestiwn Hannah Blythyn AS am y Siarter Morwr (Seafarers Charter), y Bil Hawliau Cyflogaeth ac Irish Ferries. Ni wnaethoch ymateb i hyn yn y ddadl, ond rwy'n gobeithio y daw hyn i law y Pwyllgor maes o law.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Jack Harper  
Undeb Llafur Community

4 Gorffennaf 2025

Annwyl Jack

## Ymweliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig â'r Ganolfan Cymorth Gymunedol ym Mhort Talbot

Ar ran Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am roi o'ch amser i gwrdd ag aelodau'r Pwyllgor yn ystod eu hymweliad diweddar â'r hwb cymorth cymunedol ym Mhort Talbot ar 19 Mehefin. Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr hefyd am eich cymorth parthed trefnu'r ymweliad hwn.

Teimlai'r aelodau ei bod yn ddefnyddiol iawn cael darlun cliriach o'r sefyllfa yn ystod yr ymweliad, ac roeddent yn croesawu'r cyfle i siarad ag unigolion o bob cwr o'r gymuned fel rhan o'r ffair fasnach. Roedd yr aelodau'n gwerthfawrogi'r trafodaethau agored a gafwyd ynghylch y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y diswyddiadau yng nghwmni Tata, gan gynnwys y cyfle i ddeall yr anawsterau sydd wedi dod i'r amlwg o ran ymgysylltu â rhai unigolion yr effeithiwyd arnynt am wahanol resymau.

Bydd y trafodaethau gwerthfawr hynny yn rhan hanfodol o waith y Pwyllgor ar y materion hyn yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu codi'r materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymweliad gyda'r awdurdodau perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Bwrdd Pontio.

Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r cymorth a ddarperir i bobl y mae'r penderfyniad i gau'r ffwrneisi chwyth wedi effeithio arnynt, a byddem yn croesawu unrhyw fewnbwn neu ddiweddariadau y gallech eu hanfon atom yn y dyfodol.

Unwaith eto, diolch i chi am roi o'ch amser i gwrdd ag aelodau'r Pwyllgor, a hwyluso'r sgysiau diddorol a gafwyd.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon